



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

## Atodiad A Cylch 4

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –  
Rhaglen Datblygu Gwledig

2014-2020



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynnwys

- 3** Adran 1 – Gofynion storio silwair, slyri ac olew
- 6** Adran 2 – Caniatâd a Thrwyddedau Amgylcheddol
- 7** Atodiad A – Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys
- 13** Cysylltiadau

## **Adran 1 – Gofynion storio silwair, slyri ac olew**

Mae'r gofynion canlynol yn berthnasol i storio silwair, slyri ac olew.

### **Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSAFO).**

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu'r gofynion ar gyfer cynllun (capasiti), adeiladu a chynnal a chadw cyfleusterau storio silwair a slyri.

Maent yn berthnasol i bob gosodiad a gwblhawyd ers mis Medi 1991.

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i chi hysbysu CNC, yn ysgrifenedig, o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio system sy'n newydd, wedi'i hehangu'n sylweddol neu wedi'i hailadeiladu'n sylweddol. Mae gan CNC ffurflenni i'ch helpu i ddarparu'r wybodaeth ofynnol.

### **Newidiadau 2016 i storio olew**

Disodlwyd y gofynion ar gyfer storio olew amaethyddol gan Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 ym mis Mawrth 2016.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/oil-storage-standards>. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i danciau olew amaethyddol o bob math, waeth pryd y cawsant eu hadeiladu.

### **Safonau Cydymffurfio ar gyfer slyri a silwair**

Ers 1991, mae'n rhaid i bob cyfleuster newydd, cyfleuster sydd wedi'i ehangu'n sylweddol neu ei ailadeiladu'n sylweddol, a storfeydd slyri a silwair, gael eu hadeiladu'n unol â safonau capasiti ac adeiladu'r rheoliadau a grynhoir isod. Gall eithriadau i'r gofynion adeiladu fod yn berthnasol i storfeydd a adeiladwyd, neu oedd wrthi'n cael eu hadeiladu, cyn 1991.

#### **Silwair – Byrnau a maes:**

- Ni ellir storio neu agor silwair sydd mewn byrnau a silwair sydd wedi'i lapio neu ei gau mewn bagiau o fewn 10 metr i gwrs dŵr.
- Os ydych chi'n defnyddio safleoedd silwair maes i greu neu storio silwair maes, neu silwair nad yw mewn byrnau mewn bagiau mawr, er enghraifft, 'bagiau Ag', mae'n rhaid i chi hysbysu CNC o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle am y tro cyntaf.

### Claddfeydd silwair:

- Mae'n rhaid i waelod y gladdfa, y tanc elifion a'r draeniau fod yn anhydraidd ac yn gallu gwrthsefyll ymosodiad gan elifion silwair. Mae'n rhaid i waelod y gladdfa gael ei chynllunio a'i hadeiladu'n unol â BS8007 neu BS5502 Rhan 21.
- Os caiff muriau eu defnyddio, mae'n rhaid i'r gwaelod ymestyn y tu hwnt i'r muriau. Mae'n rhaid i bob claddfa silwair gynnwys sianel ddraenio o'i hamgylch sy'n cysylltu â thanc elifion.
- Mae'n rhaid casglu a chadw'r holl elifion mewn cynhwysydd. Mae'n rhaid i gapasiti'r tanc elifiant silwair fod yn 20 litr/metr ciwbig o gapasiti seilo – hyd at 1500 metr ciwbig, a 6.7 litr/metr ciwbig o gapasiti seilo wedi hynny.
- Ni ddylai unrhyw ran o'r gosodiad hwn fod o fewn 10 metr i gwrs dŵr neu ddraeniau tir.
- Rhaid sicrhau bod claddfeydd a draeniau yn gallu para o leiaf 20 mlynedd (gyda gwaith cynnal a chadw rheolaidd).
- Rhaid sicrhau bod tanciau elifion islaw wyneb y tir yn gallu para o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw. Mae'n rhaid anfon tystysgrif i CNC yn cadarnhau bod y tanc a'r gladdfa wedi'u cynllunio a'u hadeiladu'n briodol 14 diwrnod cyn eu defnyddio.
- Os oes gan y gladdfa furiau, mae'n rhaid iddynt gael eu cynllunio'n unol â safonau BS5502 Rhan 22 a gallu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

### Slyri

- Mae rheoliadau SSAFO yn diffinio slyri fel deunydd hylifol neu led hylifol sy'n cynnwys tail a gynhyrchir gan dda byw ar fuarth neu mewn adeilad.
- Mae diffiniadau o slyri'n cynnwys golchiadau parlwr a buarth, ac unrhyw ddŵr glaw halogedig.
- Gall gwahanu dŵr glaw glân o doeau a buarthau leihau'r capasiti storio slyri sydd ei angen.
- O dan reoliadau SSAFO, mae'n rhaid casglu a storio UNRHYW slyri.
- Ni all unrhyw ran o'r system gael ei lleoli o fewn 10 metr i gwrs dŵr, y gallai slyri, oni bai bod CNC wedi cytuno, yn ysgrifenedig, i'r lleoliad a mesurau ychwanegol i osgoi llygredd.

### **Gofynion cyfleusterau storio slyri**

- Mae'n rhaid i storfeydd, tanciau, peipiau a sianelau slyri fod yn anhydraidd. Os nad yw muriau'r storfa slyri'n anhydraidd (e.e. storfeydd wal hidlo), mae'n rhaid i'r gwaelod ymestyn y tu hwnt i'r muriau gyda draeniau o'u hamgylch sy'n cysylltu â thanc slyri.
- Mae'n rhaid amddiffyn gwaelod a muriau'r tanc storio slyri, unrhyw danciau elifion, sianeli a phyllau derbyn, a muriau unrhyw beipiau yn erbyn cyrydiad, yn unol â disgrifiad BS 5502, Rhan 50 (1993).

- Rhaid sicrhau bod cynllun y tanc storio slyri a'r pwll derbyn yn cydymffurfio â BS 5502, Rhan 50 (1993).
  - Mae'n rhaid i'r pwll derbyn a'r sianelau cysylltiedig ddal o leiaf dau ddiwrnod o gynhyrchiant slyri fel arfer, gan gynnwys dŵr glaw tebygol.
  - Mae'n rhaid i danc storio slyri ddal o leiaf pedwar mis o gynhyrchiant slyri fel arfer, gan gynnwys lwfans ar gyfer dŵr glaw tebygol. Mewn Parthau Perygl Nitradau dynodedig, bydd angen cadw cynhyrchiant pum neu chwe mis gan ddibynnu ar y math o slyri a gynhyrchir.
  - Mae'n rhaid i gynllun y tanc storio slyri fod â bwrdd rhydd 300m o leiaf, ond rhaid i storfeydd gyda muriau wedi'u gwneud o bridd fod â bwrdd rhydd 750m o leiaf, sydd i'w gynnal a'i gadw bob amser.
  - Rhaid cynllunio pob rhan o'r system storio slyri i bara 20 mlynedd o leiaf, a gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd.
  - Mae'n rhaid i unrhyw bibell ddraenio sefydlog o'r tanc storio slyri fod â dwy falf mewn cyfres. Mae'n rhaid cau a chloi'r falfiau hyn os nad ydynt yn cael eu defnyddio, ac mewn tanciau storio a adeiladwyd ar ôl 2010, rhaid sicrhau bod bwloch o 1 metr o leiaf rhwng y falfiau.
- Dylech chi sicrhau eich bod yn defnyddio contractwyr neu adeiladwyr medrus sy'n deall rheoliadau SSAFO ac yn gweithio yn unol â nhw.
  - Mae elfion silwair a slyri wedi achosi llygredd difrifol, yn aml oherwydd capasiti storio annigonol neu adeiladwaith gwael. Mae storfeydd digonol ar gyfer elfion silwair a slyri neu wrtaith yn hanfodol i osgoi'r angen am daenu y tu allan i'r tymor tyfu neu yn ystod amodau tywydd a phridd amhriodol.
  - Dylech gysylltu â CNC cyn gynted â phosibl yn y cam cynllunio, gan y gallai'ch helpu i arbed amser ac arian.
  - Gall CNC sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn lleihau peryglon llygredd mewn ffordd gost-effeithiol.
  - Os yw unrhyw system gwneud silwair neu storio slyri yn achosi perygl llygredd sylweddol i ddŵr wyneb neu ddŵr daear, gall CNC gyhoeddi Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi wneud gwelliannau.

Manylion cyswllt CNC:

E-bost: [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)

Ffôn: 0300 065 3000

Post: Cyfoeth Naturiol Cymru,  
d/o Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, Tŷ Cambria,  
29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

## **Adran 2 – Caniatâd a Thrwyddedau Amgylcheddol**

### **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Awdurdod Lleol (ALI)**

Os yw ymgeisydd yn bwriadu gosod eitemau cyfalaf sy'n effeithio ar systemau storio slyri neu silwair, neu a allai effeithio ar lif dŵr, fe'i cynghorir i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a/neu ei Awdurdod Lleol (ALI), gan ei bod yn bosibl y bydd angen caniatâd i wneud y gwaith. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud hyn cyn ymrwymo i unrhyw waith arfaethedig a chyn cyflwyno cais am gymorth grant o dan y cynllun. Noder y gall Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru/yr ALI godi tâl am y caniatâd perthnasol. Dylai ymgeiswyr gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru /yr ALI yn ddigon buan i gadarnhau a oes angen caniatâd perthnasol ar gyfer y gwaith arfaethedig. Os yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru/yr ALI yn cadarnhau bod angen caniatâd, mae'n rhaid cyflwyno'r caniatâd gyda'r cais. Ni ellir prosesu ceisiadau nes bod unrhyw ganiatâd perthnasol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru/yr ALI wedi'i gyflwyno.

### **Caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu ac ati**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau unrhyw ganiatâd cynllunio gofynnol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol perthnasol eraill. Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau nad yw eu cynigion yn torri unrhyw is-ddeddf, yn rhwystro hawliau tramwy, yn effeithio ar biblinellau olew neu nwy ac ati, yn difrodi cefn gwlad neu'n achosi llygredd. Ni ellir prosesu ceisiadau heb dderbyn unrhyw ganiatâd perthnasol.

O safbwynt caniatâd cynllunio, mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnwys eu dogfennau caniatâd cynllunio gwreiddiol neu dderbynneg wreiddiol yr awdurdod cynllunio lleol sy'n dangos bod y cais cynllunio wedi'i gyflwyno. Ni thelir unrhyw grant nes bod y dogfennau caniatâd cynllunio gwreiddiol wedi'u derbyn a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Atodiad A – Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys

Gellir defnyddio'r grant ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau sydd wedi'u nodi o flaen llaw i fynd i'r afael ag effeithiau llygredd ar y fferm ac sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy ar gyfer eich fferm a'r amgylchedd yn ehangach.

Er mwyn rhagori ar y gofynion storio rheoleiddiol presennol, gellir defnyddio'r grant ar gyfer storfa wedi'i gorchuddio yn unig sy'n sicrhau capasiti storio o 160 diwrnod o leiaf a 190 diwrnod ar gyfer moch a dofednod, **waeth pa storfeydd sy'n bodoli ar y fferm eisoes**. Mi fydd cyfleusterau sydd wedi'u datguddio ond yn cael eu cymorthwyo os nad yw'r toeau a'r iardiau sy'n gysylltiedig â dŵr glaw sy'n mynd i mewn i'r cyfleuster storio arfaethedig neu unrhyw storfa bresennol yn cael eu trwsio.. Gall naill ai ddangos bod yr seilwaith presennol yn gallu cyflawni hyn neu drwy ofyn am yr eitemau angenrheidiol trwy'r SPG;

Pan fod angen cyfarpar cysylltiedig i rwystro rhediad dŵr oddi ar iardiau ac adeiladau, mae'n rhaid hawlio hyn cyn y cyfleuster storio ei hun. Bydd angen adroddiad seilwaith sy'n cadarnhau adeiladwaith sy'n cwrdd â gofynion Safonau Prydeinig a Diwydianol perthnasol ac yn manylu ar drefn y gwelliannau a'r buddion fel rhan o'r cais ochr yn ochr â'r cynllun busnes.

Cod yr Eitem	Buddsoddiad	Disgrifiad	Ardal Focws	Sgôr
	<b>Storfeydd – Gyda tho neu orchudd</b>			
<b>SP01</b>	Storfeydd a sianeli trosglwyddo tanlawr	Dylai gwaelod a waliau sianeli neu byllau fod yn anhydraidd er mwyn atal hylifau llygredig rhag dianc, neu er mwyn atal dŵr rhag dod i mewn os byddant wedi'u hadeiladu islaw'r ddaear. Os yw slyri'n cael ei wagio o sianeli i bwll derbyn trwy lifddor, dylai'r pwll fod yn ddigon mawr i ddal yr holl slyri a allai gael ei ryddhau.	5d	221.25

<b>SP02</b>	Tanciau/storfeydd slyri a phyllau derbyn tanddaear	Dylai tanciau tanddaear fod yn ddigon mawr ar gyfer yr amgylchiadau a'r dull gwacáu. Dylid adeiladu pyllau derbyn er mwyn dal o leiaf deuddydd o slyri a dŵr brwnt gan ystyried lefelau glaw tebygol. Dylid darparu trefniadau mynediad digonol os oes bwriad defnyddio tanceri slyri wedi'u tynnu gan dractor i wacáu tanciau a phyllau.	5d	193.75
<b>SP03</b>	Storfeydd crwn uwchben y ddaear	Adeiladwaith concriid neu ddur. Mae'r rhain yn addas ar gyfer storio slyri sy'n hawdd i'w bwmpio.	5d	193.75
<b>SP04</b>	Systemau cyfleusterau, a storio slyri	Cyfleusterau storfa slyri wedi ei adeiladu i BS5502 a CIRIA adroddiad C759b – Tail da byw a storfa silwair Rhan 2 Dylunio ac adeiladu. Systemau storfa slyri sydd yn cynnwys storfeydd ar gyfer elifion gwan megis dŵr brwnt, dŵr ffo o storfeydd gwrtaith solet mewn iardiau, golchion o adeiladau neu iardiau a ddefnyddir gan dda byw, pyllau derbyn a phibellau a sianeli cysylltiedig.	5d	135
<b>SP05</b>	Systemau ar gyfer dŵr brwnt	Tanciau storio, pypiau, hidlyddion a chyfarpar rheoli.	5d	147.5
<b>SP07</b>	Claddfeydd silwair	Cyfleuster storio ar gyfer silwair â gwaelod y gladdfa, y tanc elifion a'r draenau yn anhydraidd ac yn gallu gwrthsefyll ymosodiad gan elifion silwair.	5d	227.5
<b>SP08</b>	Storfa a gorchudd integredig	Bag ffabrig â chaen polyester PVC cyfnerthedig o fewn strwythur pridd. Wedi'i gyfyngu ar yr ochrau, ac yn cynnwys fentiau nwy.	5d	195



	Gorchuddion a thoeau			
<b>SP09</b>	Lagwnau –pilen blastig sefydlog sy'n arnofio	Dalen blastig fawr ag arnofion a fentiau nwy integredig. Caiff ymylon y gorchudd eu claddu yng nglannau'r lagŵn i'w ddal yn ei le.	5d	145
<b>SP10</b>	Tanciau – gorchudd plastig rhydd sy'n arnofio	Caiff dalen blastig ei hymestyn yn dynn o amgylch dolen blastig, sy'n arnofio ar yr wyneb.	5d	140
<b>SP11</b>	Tanciau – gorchudd sefydlog	Gorchudd ffabrig â chaen polyester PVC cyfnerthedig. Fel arfer, caiff y mathau hyn o orchudd eu cysylltu ag ochrau'r tanc gan ddefnyddio polyn cynnal canolog a fentiau nwy.	5b	165
<b>SP12</b>	Gorchuddion athraidd sy'n arnofio (tanciau plastig)	Platiau plastig rhydd sy'n arnofio, ar ffurf hecsagon gan amlaf. Platiau unigol sy'n mesur o 180mm.	5d	140

<b>SP13</b>	Toeau	Strwythur y to sy'n anhydraidd i law ar gyfer ardal golchi'r chwistrellwr, yr ardal storio gwrtaith, yr ardal casglu da byw, storfeydd slyri, storfeydd silwair.	2a	112.5
<b>SP14</b>	Matiau ar gyfer pyllau silwair	Matiau rwber a ddefnyddir i orchuddio a diogelu silwair a chreu sêl dynn er mwyn hwyluso'r broses eplesu.	5d	80
<b>Tanciau a Gwasgaru</b>				
<b>SP15</b>	Tancer gwactod a Thaenwr Band	Caiff slyri ei sugno i'r tancer gan ddefnyddio pwmp aer i dynnu'r aer o'r tanc er mwyn creu gwactod; caiff y tancer ei wagio gan ddefnyddio'r pwmp aer i wasgeddu'r tancer ac anfon y slyri allan. Thaenwr Band: Mae nifer o beipiau wedi'u cysylltu â braich y taenwr, gan ddsbarthu'r slyri'n agos i'r ddaear ar ffurf sribedi neu fandiau. Caiff ei fwydo â slyri o bibell unigol, gan ddibynnu felly ar bwysedd pob un o'r peipiau i ddarparu taeniad cyfartal. Mae systemau uwch yn defnyddio taenwyr sy'n cylchdroi er mwyn gwasgaru'r slyri'n gyfartal i bob allfa.	5d	312.5
<b>SP16</b>	Tancer gwactod a Thaenwr Esgid Lusk	Caiff slyri ei sugno i'r tancer gan ddefnyddio pwmp aer i dynnu'r aer o'r tanc er mwyn creu gwactod; caiff y tancer ei wagio gan ddefnyddio'r pwmp aer i wasgeddu'r tancer ac anfon y slyri allan. Esgid Lusk: ffurfweddiad tebyg i'r taenwr band ag esgid wedi'i hychwanegu at bob peipen er mwyn gallu gwasgaru'r slyri o dan ganopi'r cnwd ar y pridd.	5d	312.5

<b>SP17</b>	Tancer gwactod a Chwistrellwr (Slyri)	Caiff slyri ei sugno i'r tancer gan ddefnyddio pwmp aer i dynnu'r aer o'r tanc er mwyn creu gwactod; caiff y tancer ei wagio gan ddefnyddio'r pwmp aer i wasgeddu'r tancer ac anfon y slyri allan. Chwistrellwr: Caiff slyri ei chwistrellu o dan wyneb y pridd. Ceir amrywiol fathau o chwistrellwr ond mae pob un yn perthyn i un o ddau gategori: naill ai chwistrelliad bas slot agored, hyd at 50mm o ddyfnder; neu chwistrelliad dwfn dros 150mm o ddyfnder.	5d	322.5
<b>SP18</b>	Tancer wedi'i bwmpio a Thaenwr Band	Caiff y slyri ei bwmpio i'r tancer ac allan o'r tancer gan ddefnyddio pwmp slyri, naill ai pwmp allgyrchol (e.e. troellwr) neu ddadleoli positif (e.e. llabed). Thaenwr Band: Mae nifer o beipiau wedi'u cysylltu â braich y taenwr, gan ddsbarthu'r slyri'n agos i'r ddaear ar ffurf sribedi neu fandiau. Caiff ei fwydo â slyri o bibell unigol, gan ddibynnu felly ar bwysedd pob un o'r peipiau i ddarparu taeniad gwastad. Mae systemau uwch yn defnyddio taenwyr sy'n cylchdroi er mwyn gwasgaru'r slyri yn gyfartal i bob allfa.	5d	312.5
<b>SP19</b>	Tancer wedi'i bwmpio â Thaenwr Esgid Lusg	Caiff y slyri ei bwmpio i'r tancer ac allan o'r tancer gan ddefnyddio pwmp slyri, naill ai pwmp allgyrchol (e.e. troellwr) neu ddadleoli positif (e.e. llabed). Esgid Lusg: ffurfweddiad tebyg i'r taenwr band ag esgid wedi'i hychwanegu at bob peipen er mwyn gallu gwasgaru'r slyri o dan ganopi'r cnwd ar y pridd.	5d	312.5

<b>SP20</b>	Tancer wedi'i bwmpio â Chwistrellwr (Slyri)	Caiff y slyri ei bwmpio i'r tancer ac allan o'r tancer gan ddefnyddio pwmp slyri, naill ai pwmp allgyrchol (e.e. troellwr) neu ddadleoli positif (e.e. llabed). Chwistrellwr: caiff slyri ei chwistrellu o dan wyneb y pridd. Ceir amrywiol fathau o chwistrellwr ond mae pob un yn perthyn i un o ddau gategori: naill ai chwistrelliad bas slot agored, hyd at 50mm o ddyfnder; neu chwistrelliad dwfn dros 150mm o ddyfnder.	5d	322.5
<b>SP21</b>	Taenwr Band	Mae nifer o beipiau wedi'u cysylltu â braich y taenwr, gan ddsbarthu'r slyri'n agos i'r ddaear ar ffurf sribedi neu fandiau. Caiff ei fwydo â slyri o bibell unigol, gan ddibynnu felly ar bwysedd pob un o'r peipiau i ddarparu taeniad cyfartal. Mae systemau uwch yn defnyddio taenwyr sy'n cylchdroi er mwyn gwasgaru'r slyri'n gyfartal i bob allfa.	5d	180
<b>SP22</b>	Taenwr Esgid Lusg	Ffurfweddiad tebyg i'r taenwr band ag esgid wedi'i hychwanegu at bob peipen er mwyn gallu gwasgaru'r slyri o dan ganopi'r cnwd ar y pridd.	5d	180
<b>SP23</b>	Peipen gyswllt â Thaenwr Band	Bwydir y slyri gan bibell lusg i'r system ddsbarthu sydd wedi'i gosod ar y tractor; caiff y beipen ei chyflenwi â slyri a ddaw'n uniongyrchol o'r storfa slyri fel arfer drwy bwmp allgyrchol neu ddadleoli positif.	5d	340
<b>SP24</b>	Peipen gyswllt â Thaenwr Esgid Lusg	Bwydir y slyri gan bibell lusg i'r system ddsbarthu sydd wedi'i gosod ar y tractor; caiff y beipen ei chyflenwi â slyri a ddaw'n arfer yn uniongyrchol o'r storfa slyri fel arfer drwy bwmp allgyrchol neu ddadleoli positif.	5d	340
<b>SP25</b>	Peipen gyswllt â Chwistrellwr (Slyri)	Bwydir y slyri gan bibell lusg i'r system ddsbarthu sydd wedi'i gosod ar y tractor; caiff y beipen ei chyflenwi â slyri a ddaw'n uniongyrchol o'r storfa slyri fel arfer drwy bwmp allgyrchol neu ddadleoli positif.	5d	350

<b>SP26</b>	Peipen gyswllt â Dyfrhâwr	Bwydir y slyri gan bibell lusg i'r system ddsbarthu sydd wedi'i gosod ar y tractor; caiff y beipen ei chyflenwi â slyri a ddaw'n arfer yn uniongyrchol o'r storfa slyri fel arfer drwy bwmp allgyrchol neu ddadleoli positif.	5d	290
<b>SP27</b>	Dyfrhâwr	Peiriant sy'n teithio ar ei ben ei hun â pheipiau hyblyg neu ar olwyn a gaiff eu bwydo o rwydwaith o bibellau tanddaear fel arfer, â phwmp allgyrchol neu ddadleoli positif, wedi'i leoli ger storfa'r slyri.	5d	130
<b>SP28</b>	Chwistrellwr (Slyri)	Caiff slyri ei chwistrellu o dan wyneb y pridd. Ceir amrywiol fathau o chwistrellwr ond mae pob un yn perthyn i un o ddau gategori: naill ai chwistrelliad bas slot agored, hyd at 50mm o ddyfnder; neu chwistrelliad dwfn dros 150mm o ddyfnder.	5d	190
<b>SP29</b>	Rheolydd cyfradd amrywiol ar gyfer chwistrellwyr a thaenwyr gwrtaith	Dyfais electronig i gysylltu â chwistrellwr neu daenwr gwrtaith er mwyn gallu taenu ar gyfradd amrywiol. Gall y system reoleiddio ddefnyddio synhwyrdd gwasgedd neu synhwyrdd llif a darparu gwybodaeth am gyflymder ymlaen, cyfradd defnydd, cyfanswm arwynebedd ac arwynebedd rhannol, cyfanswm cyfaint a chyfaint rhannol a ddefnyddiwyd, statws a gwasgedd y fraich a'r darn, cyfradd llif a lefel y tanc.	5d	200
<b>SP30</b>	Taenwr sy'n troi	Taenwr sy'n gollwng o'r ochrau â chorff silindraidd a siafft pto-yredig yn cynnwys ffustiau ar hyd canol y silindr. Wrth i'r rotor droi, mae'r ffustiau'n taflu'r gwrtaith solet allan i'r ochr.	5d	123.75

<b>SP31</b>	Taenwr sy'n gollwng y tu ôl	Corff trelar wedi'i osod â llawr symudol neu fecanwaith arall sy'n taenu gwrraith solet y tu ôl i'r taenwr. Gall fod gan y mecanwaith taenu ddyfeisiau curo fertigol neu lorweddol, yn ogystal â disgiau sy'n troelli mewn rhai achosion.	5d	123.75
<b>SP32</b>	Taenwr deuddiben	Taenwr sy'n gollwng o'r ochrau â chorff siâp-V pen agored a all ymdrin â slyri a gwrraith solet. Mae troellwr neu rotor sy'n troi'n gyflym, ar flaen y taenwr fel arfer, yn taflu'r deunydd o ochr y peiriant. Caiff y rotor ei fwydo â deunydd gan daradr neu fecanwaith arall sy'n cael ei osod yng ngwaelod y taenwr, ac mae gât sy'n sleidio'n rheoli cyfradd llif y deunydd i'r rotor.	5d	123.75
<b>Storio Cemegion/Plaladdwyr/Olew Tanwydd</b>				
<b>SP33</b>	Tanciau a byndiau tanwydd	Tanc storio a'r pibellwaith cysylltiedig. Rhaid i'r system gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016. Rhaid i'r tanc storio fod yn addas i'r diben a chynnwys system gynnwys eilaidd (bwnd fel arfer) sy'n gallu cynnwys dim llai na 110% o gynnwys y tanc. Hefyd, mae'r Rheoliadau'n cynnwys manylebau yn ymwneud â manau llenwi, cyfarpar dosbarthu a phibellwaith gorlif y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw. Mae'n rhaid i'r deunyddiau ar gyfer y tanc a'r bwnd fod yn anathraidd i'r olew sy'n cael ei storio ynddynt.	2a	50
<b>SP34</b>	Storio Cemegion	Adeilad neu uned storio byndiog diogel (y gellir ei gloi) â system ddraenio addas er mwyn casglu gollyngiadau. Diogelwch rhag rhew. Wedi'i gysylltu o bosibl â phad llenwi/golchi.	2a	50

	Eraill Cyffredinol			
<b>SP35</b>	Pecyn Dadansoddi Slyri	Pecyn profi er mwyn dadansoddi'r nitrogen sydd ar gael i blanhigion mewn slyri/gwrtaith gwlyb a sych yn gywir.	5d	190
<b>SP36</b>	Pecyn Profi Pridd	Pecynnau profi deuddiben ar gyfer mesur ph y pridd a gofynion o ran calch.	5d	190
<b>SP37</b>	Adnewyddu iardiau da byw a phibellwaith draenio tanddaear	Adnewyddu iardiau da byw a phibellwaith draenio tanddaear	2a	120
<b>SP38</b>	Nwyddau dŵr glaw	Systemau gwaredu mewnol neu allanol ar gyfer cludo glaw oddi ar doeon ac ati i'r cysylltiad neu'r rhigol cyntaf i ddraen tanddaear, gan gynnwys cwteri, peipiau dŵr ac ati. Yn cynnwys tanciau storio.	25a	160
<b>SP39</b>	Dargyfeirwyr glaw/hidlyddion peipiau dŵr sgwd cyntaf	Dargyfeirwyr glaw/hidlyddion peipiau dŵr sgwd cyntaf	25a	160
<b>SP40</b>	Bio hidlyddion/Bio flwch	Gwely Bio Bync neu Bio Flwch, y cyfeirir ato hefyd fel Bio Hidlydd, system ar gyfer ardaloedd llenwi Chwistrellwr Tanglawr a gweithrediadau llai neu lle mae llai na 15,000 o litrau yn dod drwy'r system bob blwyddyn.	25a	90

<b>SP41</b>	GPS ar gyfer ffermio manwl	Uned GPS annibynnol â chyfleuster awtomatig ar gyfer mesur ffiniau caeau ac adnabod caeau. Dylai fod ganddo foddau llywio syth a chrwm o leiaf a dylai allu argraffu mapiau.	5d	202.5
<b>SP42</b>	GPS a systemau llif	Mesurydd llif slyri, arddangosiad/rheolydd yn y caban a system GPS.	5d	202.5
<b>SP43</b>	Padelli calibradu	Set o badelli ar gyfer calibradu taenwyr gwrtait. Dylai'r padelli gynnwys baffl er mwyn atal priliau rhag adlamu oddi ar y badell, cyfarpar mesur er mwyn cyfrifo'r taeniad pwysau fesul ardal unedol.	5d	220
<b>SP44</b>	Tanc slyri mewn cae	Defnyddir i gludo amrywiol gemegau a hylifau amaethyddol i'r man y byddant yn cael eu taenu.	5d	180
<b>SP45</b>	Pympiau 'ram' hydrologig (dŵr).	Pwmp sy'n gweithio drwy bwysedd hydrologig i godi dŵr glân.	25a	150
<b>SP46</b>	Gwthiwr silwair robotig	System robotig â meddalwedd ddeallus y gellir ei rhaglennu ar gyfer y llwybr bwydo bwriadedig. Dylai'r cyfarpar allu canfod y pellter o'r atalfa bwydo yn ogystal â swm y porthiant yn y llwybr.	5b	85
<b>SP47</b>	Systemau crafu trydanol	System crafu slyri â moduron trydan. Gweithredu'n awtomatig. (Yn lle system crafu tractor) gyriant hydrologig neu winsh rhaff / cadwyn. Heb gynnwys costau gosod.	5b	107.5



<b>SP48</b>	Uned gwahanu slyri	Pwmp ac uned gwahanu slyri er mwyn gwahanu hylif o'r elfen ffibr mewn slyri anifeiliaid.	25a	130
<b>SP49</b>	Pympiau (Slyri)	Pympiau slyri pwysedd uchel i'w defnyddio gyda pheipen gyswllt. Dadleoli allgyrchol neu bositif.	5d	120
<b>SP50</b>	Pad llenwi chwistrellwr/dŵr golchi	Pad concriid wedi'i fwndio a/neu wedi'i orchuddio er mwyn cyfyngu gollyngiadau dŵr/dŵr golchi o'r chwistrellwr cnydau.	25a	90
<b>SP51</b>	Sgwrwyr Aer	Sgwrwyr aml-lygrydd ar gyfer dileu amonia, arogleuon, a deunydd gronynnol o adeiladau da byw.	5d	130
<b>SP52</b>	Canfyddwr nwy a ddelir â llaw	Monitorau nwy symudol a all helpu ffermwyr i gadw'n ddiogel wrth weithio o amgylch slyri. Monitorau nwy sy'n monitro hyd at 4 nwy - Ocsigen, Carbon Monocsid, Methan a Hydrogen Sylffid.	2a	37.5

# Cysylltiadau

## Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau. Mae'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn agored i dderbyn galwadau ffôn rhwng 8.30 y bore a 5 y prynhawn.

Gallwch gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid fel a ganlyn:

Ffôn: 0300 062 5004

E-bost: [rpwonline@gov.wales](mailto:rpwonline@gov.wales)

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost:

Taliadau Gwledig Cymru, PO Box 1081,  
Caerdydd, CF11 1SU

## Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal

ArdalBydd swyddfeydd yn Aberystwyth, Caerfyrddin, Caernarfon a Llandrindod yn agored i ymwelwyr rhwng 9am a 4.30pm, o ddydd Llun hyd ddydd Gwener. Ni fydd y swyddfeydd ardal ar agor mor aml, felly dylai ymwelwyr edrych ar ein gwefan neu ffonio'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i weld pryd maen nhw ar agor.

Swyddfa Ranbarthol Caernarfon  
Llywodraeth Cymru  
Doc Victoria  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1TH

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Teras Picton  
Caerfyrddin SA31 3BT

Swyddfa Ardal Aberystwyth  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion SY23 3UR

Swyddfa Ardal y Drenewydd  
Ty Ladywell  
Park Street  
Y Drenewydd SY16 1JB

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Spa Road East  
Llandrindod LD1 5HA

Swyddfa Ranbarthol Cyffordd  
Llandudno  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
Conwy LL31 9RZ

Taliadau Gwledig Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Craidd y Gorllewin, 4ydd Llawr  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: [www.cymru.llyw/cynlluniauamaeth](http://www.cymru.llyw/cynlluniauamaeth). Bydd cyfle ichi gofrestru arni am daflen e-newyddion yr Adran Materion Gwledig fydd yn cael ei hanfon atoch trwy e-bost.

## Gwlad

Gwlad yw cylchgrawn deufisol Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. Rhifyn Mawrth/Ebrill 2016 o Gwlad oedd yr un olaf ar gopi caled. Wedi hynny, un o'r ffyrdd rydym yn cyfathrebu fydd trwy e-gylchlythyr Gwlad. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn yr e-gylchlythyr trwy fynd i: [www.llyw.cymru/news-alerts](http://www.llyw.cymru/news-alerts) [www.llyw.cymru/gwlad](http://www.llyw.cymru/gwlad)